# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 25 Hydref 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru
2 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
11 Cwestiynau i'r Trefnydd


## Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru

### Goblygiadau Ariannol yr Ymosodiadau Terfysgol

**C8 Ieuan Wyn Jones:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi cynnal trafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y goblygiadau ariannol yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol ar yr Unol Daleithiau? (OAQ13049)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol yn cysylltu yn rheolaidd â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, asiantaethau eraill a'r sector preifat i asesu'r goblygiadau economaidd i Gymru yn sgîl yr ymosodiadau terfysgol ar UDA. Yr wyf yn pryderu yn benodol am ein sector aerofod ac yr wyf wedi siarad yn bersonol â rhai o'r cwmnïau hyn. Yr wyf wedi clywed ganddynt hwy yn uniongyrchol am eu hanawsterau ac wedi cael gwybod am eu cynlluniau. Mae'r cwmnïau'n cadw llygaid barcud ar eu sefyllfa ac wedi ymrwymo i roi gwybod i mi am unrhyw ddatblygiadau.

### Yr Uwch-Gynhadledd Weithgynhyrchu Arfaethedig

**C9 Janet Davies:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cynnal â'r Adran Masnach a Diwydiant ynghylch yr uwch-gynhadledd weithgynhyrchu arfaethedig? (OAQ13062)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais yn y Cyfarfod Llawn i gwestiwn 5 (OAQ13071).

### Hyrwyddo Cymru fel Cyrchfan i Dwristiaid

**C10 Jonathan Morgan:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch effaith yr hyn a ddigwyddodd ar 11 Medi ar gynlluniau i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan bwysig i dwristiaid? (OAQ13052)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym yn rhagweld y bydd effeithiau sylweddol ar dwristiaeth yng Nghymru yn y tymor byr a'r tymor hwy. Mae'r Awdurdod Twristiaeth Prydeinig yn amcangyfrif y gallai nifer ymwelwyr o UDA a Chanada i Brydain ostwng 60 a 40 y cant, yn ôl eu trefn, am weddill y flwyddyn. Gan mai UDA yw marchnad dwristiaeth unigol fwyaf Cymru, mae Bwrdd Croeso Cymru yn adolygu ei ymgyrchoedd marchnata arfaethedig yn UDA. Mae'n debyg y bydd gweithgareddau arfaethedig y Bwrdd yn Ewrop yn mynd rhagddynt a bydd marchnata yn y DU yn cael ei gynyddu, gan fod argoelion eisoes fod ymwelwyr wedi cymryd eu gwyliau yr hydref hwn yn y DU yn lle mynd tramor.

### Mynd i'r Afael â Phroblemau Economaidd yng Nghymru Wledig

**C11 Geraint Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch sut y bydd y cynllun i Gymru sydd ar y gweill yn mynd i'r afael â phroblemau economaidd yn y Gymru wledig? (OAQ13048)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae 'Cynllun i Gymru 2001' yn disgrifio ein rhaglen radicalaidd i greu Cymru fodern, gan gynnwys ein hagenda i amaethyddiaeth Cymru yn y tymor hir a'n hymrwymiad i ddatblygu strategaeth i gefn gwlad Cymru.

Rhoddaf ddatganiad manwl am 'Gynllun i Gymru 2001' heddiw.

*Tynnwyd cwestiwn 12 (OAQ13082) yn ôl.*

### Cymorth i'r Diwydiant Aerofod

**C13 Ann Jones:** Pa gymorth y mae Prif Weinidog Cymru yn ystyried ei gynnig i'r diwydiant aerofod yng Nghymru yn sgîl canlyniadau'r hyn a ddigwyddodd ar 11 Medi? (OAQ13050)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn pryderu am ein sector aerofod yng Nghymru ac wedi clywed ganddynt yn uniongyrchol am eu hanawsterau a'u hansicrwydd. Mae'r cwmnïau hyn yn cadw llygad barcud ar eu sefyllfa ac wedi ymrwymo i roi gwybod i mi am unrhyw ddatblygiadau. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru yn parhau i gadw llygad barcud ar y sefyllfa.

### Sefydlu Cwmnïau Mewn Enw yn Unig

**C14 David Davies:** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru yn eu cymryd i amddiffyn rhag sefydlu cwmnïau mewn enw yn unig yng Nghymru? (OAQ13054)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wythnos diwethaf fe wnaeth Canghellor y Trysorlys ddatganiad a ddisgrifiodd cynllun y DU i weithredu yn erbyn ariannu terfysgaeth, ac yr wyf yn ei gefnogi'n llwyr.

### Targedau Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol

**C15 Phil Williams:** Pa gamau a gymerwyd i bennu targedau rhanbarthol ar gyfer y strategaeth ddatblygu economaidd genedlaethol? (OAQ13060)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyflwynir strategaeth ddrafft i Bwyllgor Datblygu Economaidd yn ei gyfarfod ar 31 Hydref.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Taliadau Cyfalaf Un-tro

**C5 Alun Cairns:** A ryddhawyd cyllid ar gyfer taliadau cyfalaf un-tro ym maes iechyd? (OAQ13114)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Dyrannwyd £40 miliwn o drefniadau hyblyg diwedd y flwyddyn i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer gwario ar gyfalaf yn syth yn 2000-01. Ceir hefyd £19.6 miliwn o drefniadau hyblyg diwedd y flwyddyn ar gyfer 2002-03 a £22 miliwn ar gyfer 2003-04 i'w gwario ar brosiectau cyfalaf.

### Cynyddu Gwariant ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**C6 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y cynnydd arfaethedig mewn gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ei chyhoeddiad diweddaraf ar y gyllideb? (OAQ13118)

**Edwina Hart:** Cyhoeddais fy nghyllideb ddrafft ar 18 Hydref ac yr oedd honno'n cynnwys cynnydd yn y gwariant yn ei grynswth ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o £42.8 miliwn ar gyfer 2002-03 a £57.9 miliwn ar gyfer 2003-04, ac mae hynny'n adlewyrchu pa mor bwysig ydyw ymhlith blaenoriaethau'r Cynulliad. Dyrennais hefyd £40.5 miliwn ychwanegol o drefniadau hyblyg diwedd y flwyddyn i'w gwario yn syth ar gyfalaf ledled Cymru eleni, a bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi mwy o fanylion ar hyn dros yr wythnosau nesaf. Bydd rhagor o arian o drefniadau hyblyg diwedd y flwyddyn ar gael yn 2002-03 (£19.6 miliwn) a 2003-04 (£22 miliwn).

**Costau'r Adeilad Newydd**

**C7 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch yr amcangyfrif diweddaraf o gost adeilad newydd y Cynulliad y mae'r weinyddiaeth yn bwriadu ei adeiladu? (OAQ13112)

**Edwina Hart:** Fel a ddywedais wrth ateb cwestiwn 4, yr ydym yn chwilio am gynigion drwy roi hysbyseb yn *Official Journal of the European Communities*. Mae'r hysbyseb honno yn gofyn am gynigion naill ai i'r Cynulliad brynu'r adeilad neu i'r Cynulliad ei brydlesu ar ôl iddo gael ei godi. Byddai costau'r ddau ddewis yn wahanol iawn. Y sawl sy'n cyflwyno ei gynnig sydd i roi amcangyfrif o'r costau. Byddaf yn cyflwyno'r cynigion i'r Cynulliad ar ôl i'r ceisiadau ddod i law a chael eu hadolygu.

*Tynnwyd cwestiwn 8 (OAQ13104) yn ôl.*

**Cyfanswm Cost Siambr Newydd**

**C9 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cyfanswm cost Siambr newydd y Cynulliad hyd yn hyn, gan nodi'n arbennig gost terfynu'r contractau a'r gwariant ychwanegol sy'n deillio o'r oedi yn y gwaith adeiladu? (OAQ13103)

**Edwina Hart:** Tua £5.1 miliwn yw'r amcangyfrif ar hyn o bryd o gyfan y costau hyd yn hyn. Ni allaf fanylu ar amcangyfrifon newydd o gostau nes bod y broses gaffael ar ben. Maent yn dibynnu ar y cynigion a ddaw i law. Mae trafodaethau yn parhau i geisio dod i gytundeb ar gontract Partneriaeth Richard Rogers. Ni allaf ryddhau'r manylion ar hyn o bryd.

**Ariannu Prosiectau yng Ngorllewin De Cymru**

**C10 Peter Black:** Faint o arian ychwanegol sydd wedi'i glustnodi yn y gyllideb ar gyfer helpu prosiectau mawr yn rhanbarth Gorllewin De Cymru? (OAQ13108)

**Edwina Hart:** Bydd llawer o'r newidiadau a gyhoeddais yn fy nghyllideb yr wythnos diwethaf o fudd i Gymru gyfan. Er hynny, fe fydd rhanbarth Gorllewin De Cymru yn elwa'n benodol o adnoddau ychwanegol a glustnodwyd at brosiectau yn y rhaglenni cyfalaf iechyd a chelfyddyd yn ogystal â thrwy ddatblygu safleoedd gan Awdurdod Datblygu Cymru ac ehangu pecyn cymorth yn sgil diswyddiadau Corus.

**Sicrhau Gwerth am Arian**

**C11 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan sut y mae'n sicrhau gwerth am arian ar draws cyllideb y Cynulliad? (OAQ13113)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn ymgymryd â rhaglen eang o weithgareddau i wella gwerth am arian ar draws holl feysydd ein gwariant. Mae'r camau yn cynnwys ymgyrch mawr i fynnu gwell gwerth wrth i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gaffael ei nwyddau a'i wasanaethau; sicrhau bod gan y Cynulliad a'r prif gyrff cyhoeddus y mae'n eu hariannu gynlluniau rheolau asedau; arolygu pob corff a noddir gennym; a rhaglen werthuso polisïau, rhaglenni a chynlluniau grantiau'r Cynulliad. Yr ydym hefyd wedi cyflwyno fframwaith rheoli perfformiad i'r NHS yng Nghymru a threfn Gwerth Gorau i'r awdurdodau lleol.

### Arian ar gyfer Prosiectau Cyfalaf Un-Tro

**C12 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch faint o arian sydd ar gael yn y gyllideb ar gyfer prosiectau cyfalaf un-tro? (OAQ13092)

**Edwina Hart:** Fel yr eglurais wrth ddatgan fy nghyllideb ddrafft ar 18 Hydref, yr wyf wedi sicrhau bod arian sylweddol ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf. Adnoddau heb eu gwario a dynnwyd ymlaen o flynyddoedd ariannol blaenorol yw'r rhan fwyaf ohono. Bydd Gweinidogion unigol y Cabinet yn cyhoeddi manylion y prosiectau a ariennir felly.

### Newid y System Gyllido

**C13 John Griffiths:** A fwriedir newid y system gyllido er mwyn gwella effeithlonrwydd ariannol ymhellach? (OAQ13091)

**Edwina Hart:** Fel a ddigwyddodd mewn blynyddoedd blaenorol, byddaf yn adolygu'r broses o gynllunio'r gyllideb ar ôl cyhoeddi'r gyllideb derfynol.

### Dyfodol Partneriaethau Preifat-Cyhoeddus

**C14 David Melding:** Pa gynrychiolaethau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch dyfodol partneriaethau preifat-cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ13111)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi trafod â sawl corff, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Unsain, ynglŷn â defnyddio partneriaethau priefat-cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol. Yr wyf hefyd wedi ymgynghori ar y mater hwn. Gwnaf ddatganiad i'r Cynulliad ar ganlyniad yr ymgynghori hwn yn yr wythnosau nesaf.

### Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

**C15 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar ei thrafodaethau ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant gydag adrannau perthnasol llywodraeth y DU? (OAQ13101)

**Edwina Hart:** Mae'r adolygiad nesaf o wariant yn ei gamau cyntaf ac yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod materion felly. Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio ar y broses.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

*Tynnwyd cwestiynau 8 (OAQ12726) a 9 (OAQ12750) yn ôl.*

### Creu Oriel Gelf Genedlaethol

**C10 Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch creu oriel gelf genedlaethol yn benodol i Gymru? (OAQ12695)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru dros dro a'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Yr wyf wedi cael sawl llythyr am y pwnc hwn. Bu llawer o ddiddordeb hefyd yn yr arolwg ar ddangos celf sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Mae wedi cwblhau cam cyntaf yr arolwg, ac wedi paratoi adroddiad dros dro. Amlinellodd cynrychiolwyr y sefydliad hwnnw ganfyddiadau'r adroddiad mewn seminar y tymor diwethaf y cafodd pob Aelod o'r Cynulliad ei wahodd iddo.

Yn ail gam yr arolwg fe ymgynghorir ymhellach. Caiff y canlyniadau terfynol a'r dewisiadau ar gyfer y dyfodol eu cyhoeddi gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru mewn dogfen ymgynghori gyhoeddus eleni.

*Tynnwyd cwestiynau 11 (OAQ12702), 12 (OAQ12701) a 13 (OAQ12703) yn ôl.*

**Canolfan Mileniwm Cymru**

**C14 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar y trafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch Canolfan Mileniwm Cymru yn ddiweddar? (OAQ12791)

**Jenny Randerson:** Yn ystod yr haf cynhaliodd fy nghyd-Weinidogion a mi drafodaethau helaeth â Syr David Rowe-Beddoe. Er mwyn i'w dîm allu negodi pris pendant ar gyfer y contract adeiladu â Syr Robert McAlpine, yr oedd angen dangos bod y Cynulliad yn fodlon ymrwymo arian i'r prosiect. Gwnaethom gytuno y byddai'r Cynulliad yn neilltuo hyd at £37 miliwn at y prosiect, ac y byddem yn fodlon rhoi'r cyfanswm ar gael, pe bai angen. Mae hyn yn cynnwys yr £8 miliwn a neilltuwyd gynt. Gwnaethom egluro hefyd mai dyna gyfanswm y cymorth y bydd y Cynulliad yn ei roi. Mae camau terfynol trafod y prosiect yn awr yn mynd rhagddynt ynglŷn â phris y contract adeiladu ac edrychaf ymlaen at gytundeb y mis nesaf.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ12704) yn ôl.*

**Canolfan Mileniwm Cymru**

**C16 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Ganolfan Mileniwm Cymru? (OAQ12740)

**Jenny Randerson:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i gwestiwn 14 (OAQ12791).

**Hyrwyddo Caerdydd fel Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008**

**C17 Nick Bourne:** Pa ddatblygiadau a wnaed gan y Gweinidog i hyrwyddo Caerdydd fel Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008? (OAQ12696)

**Jenny Randerson:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno cefnogi Cyngor Dinas a Sir Caerdydd wrth ddatblygu ei gais am statws Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008. Yr ydym wedi cytuno i ddarparu hyd at £500,000 fel arian cyfatebol at gost paratoi'r cais. Mae Cyngor Dinas a Sir Caerdydd yn sefydlu cwmni cyfyngedig drwy warant i fwrw ymlaen â datblygu'r cais.

Yr wyf am sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud popeth a allai i gefnogi cais Caerdydd a bod buddiannau cais llwyddiannus yn cael eu rhannu ledled Cymru.

**Opera Genedlaethol Cymru**

**C18 Peter Black:** Pa drafodaethau a gafwyd ag Opera Genedlaethol Cymru am ei raglen o berfformiadau o amgylch Cymru? (OAQ12729) [R]

**Jenny Randerson:** Cyfarfum â chynrychiolwyr Opera Genedlaethol Cymru fis Mai i drafod sefydlogi ei chyllid, a fyddai'n ei galluogi i gynnal ei gwaith ledled Cymru. Cyfarfum â'r cynrychiolwyr hynny eto ar 8 Hydref, ar y cyd â dirprwyaeth o Abertawe, ynglŷn â'i rhaglen o berfformiadau. Bydd y ddarpariaeth ychwanegol i Gyngor Celfyddydau Cymru yn y gyllideb ddrafft yn galluogi'r cyngor i roi Opera Genedlaethol Cymru mewn sefyllfa ariannol sefydlog ac yn sefydlogi ei raglen deithio yn y dyfodol.

**Hyrwyddo Celfyddydau Cymunedol a Chelfyddydau ar Lefel Leol**

**C19 Pauline Jarman:** Sut bydd y Gweinidog yn hyrwyddo celfyddydau cymunedol a chelfyddydau ar lefel leol? (OAQ12783)

**Jenny Randerson:** Mae fy strategaeth diwylliant yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu grwpiau celfyddydau cymunedol, oherwydd eu bod yn chwarae rhan bwysig wrth annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau. Gofynnais i Gyngor Celfyddydau Cymru ddatblygu strategaethau sy'n cydnabod mor bwysig yw gweithgareddau cymunedol ar lawr gwlad wrth ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru.

Yr wyf am wneud hynny tra hefyd yn diogelu safleoedd y cwmnïau sydd â chylch gwaith cenedlaethol, sy'n chwarae rhan werthfawr wrth ddatblygu rhagoriaeth ac wrth hyrwyddo delwedd Cymru yn y DU a thramor. Mae'n rhaid iddynt wneud hynny drwy gydweithio â chwmnïau celfyddydau cymunedol, yn hytrach na chystadlu â hwy.

### Cymorth i'r Gemau Olympaidd Arbennig

**C20 Brian Hancock:** Pa gymorth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi i'r gemau Olympaidd Arbennig yr haf yma? (OAQ12785)

**Jenny Randerson:** Daeth y Cynulliad Cenedlaethol i'r adwy i helpu Gemau Haf Cenedlaethol Olympaidd Arbennig y DU a gynhaliwyd eleni yng Nghaerdydd drwy roi grant £64,000 i sicrhau nad oedd rhaid i'r gemau wyth niwrnod gael eu lleihau oherwydd problemau ariannol.

Yr oedd grant y Cynulliad yn ychwanegol at y £10,000 y cyfrannodd Cyngor Chwaraeon Cymru at y gemau. Bu'r cyngor yn sicrhau hefyd bod adnoddau Sefydliad Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, ar gael ar gyfer rhai o ddigwyddiadau'r gemau ac yn awr y bydd yn rhoi cymorth i'r athletwyr o Gymru a gymerodd ran yn y gemau iddynt fwrw ymlaen â'u huchelgais drwy raglen ddatblygu barhaol.

*Tynnwyd cwestiwn 21 (OAQ12687) yn ôl.*

### Cynnal Safon Rhaglenni Rhanbarthol

**C22 Cynog Dafis:** Sut bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig ar ddarlledu a chyfathrebu yn sicrhau y bydd safon rhaglenni rhanbarthol yn cael ei chynnal? (OAQ12787)

**Jenny Randerson:** Nid wyf wedi gweld y ddeddfwriaeth ddrafft eto, ond mae Kim Howells, AS, wedi dweud wrthyf y caiff ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn y gwanwyn. Awgrymwyd yn y Papur Gwyn y byddai'r Llywodraeth yn ceisio cadw a chryfhau'r agwedd ranbarthol ar ddarlledu cyhoeddus, ac yn ceisio sicrhau bod darlledu cyhoeddus yn parhau i fodloni anghenion gwahanol gymunedau a buddiannau diwylliannol. Argymhellodd y Cynulliad wrth ymateb i'r Papur Gwyn y dylid rhoi dyletswydd benodol i bennu targedau cynhyrchu yng ngwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.

### Datblygiad Canolfan Ragoriaeth Undeb Rygbi Cymru

**C23 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'i thrafodaethau diweddar ynghylch datblygiad canolfan ragoriaeth Undeb Rygbi Cymru? (OAQ12775)

**Jenny Randerson:** Nid wyf wedi trafod canolfan ragoriaeth Undeb Rygbi Cymru yn ddiweddar. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi ysgrifennu at yr undeb yn gofyn iddi gynnig strategaeth datblygu rygbi, gan amlygu anghenion cyfleusterau yn genedlaethol a rhanbarthol.

### Cynorthwyo Twf a Datblygiad Pêl-droed yng Nghymru ar y Lefel Leol

**C24 Lynne Neagle:** Beth yw cynlluniau'r Gweinidog o ran cynorthwyo twf a datblygiad pêl-droed yng Nghymru ar y lefel leol? (OAQ12705)

**Jenny Randerson:** Sefydlais fforwm pêl-droed yng Nghymru i ddatblygu strategaeth datblygu pêl-droed i bobl ifanc. Bydd y fforwm hefyd yn ystyried a diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau’r amrywiol gyrff pêl-droed yn y strategaeth newydd. Bydd hynny’n helpu i gefnogi twf a datblygiad pêl-droed ar lawr gwlad yn y dyfodol yng Nghymru.

**Gwella'r Cysylltiadau rhwng Gweithgarwch Celfyddydol Lleol a Sefydliadau Celfyddydol Cenedlaethol**

**C25 Janet Ryder:** Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu cymryd i wella’r cysylltiadau rhwng gweithgarwch celfyddydol lleol a’n sefydliadau celfyddydol cenedlaethol? (OAQ12790)

**Jenny Randerson:** Yn ôl fy strategaeth ddiwylliant mae datblygu grwpiau celfyddydau cymunedol yn flaenoriaeth fawr oherwydd bod ganddynt ran allweddol wrth annog gweithgareddau celfyddydol. Gofynnais i Gyngor Celfyddydau Cymru ddatblygu strategaethau sy’n cydnabod pwysigrwydd gweithgareddau cymunedol ar lawr gwlad wrth ddatblygu’r celfyddydau yng Nghymru.

Yr wyf am wneud hynny ar yr un pryd â diogelu safle’r cwmnïau sydd â chylch gwaith cenedlaethol. Mae ganddynt ran werthfawr wrth ddatblygu rhagoriaeth ac wrth hyrwyddo delwedd Cymru yn y DU a thramor. Rhaid gwneud hynny drwy gydweithio â chwmnïau celfyddydau cymunedol, yn hytrach na thrwy gystadlu â hwy.

*Tynnwyd cwestiwn 26 (OAQ12727) yn ôl.*

**Gemau Olympaidd Arbennig**

**C27 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y Gemau Olympaidd Arbennig a gynhelir yng Nghaerdydd yr haf yma? (OAQ12786)

**Jenny Randerson:** Yr oeddwn wrth fy modd bod Gemau Haf Cenedlaethol Olympaidd Arbennig y DU yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd rhwng 28 Gorffennaf a 4 Awst 2001. Dyna’r tro cyntaf yn hanes y gemau i’r digwyddiad gael ei gynnal yng Nghymru. Fe fu’n gyfle delfrydol inni barhau i chwarae ein rhan wrth hyrwyddo chwaraeon i’r rhai sydd ag anawsterau dysgu ledled y DU.

Daeth y gemau â mwy na 2,500 o gystadleuwyr ynghyd, yn cystadlu mewn 16 o ddigwyddiadau gwahanol ledled Caerdydd. Daeth y gemau hefyd â miloedd o gefnogwyr, gofalwyr a gwirfoddolwyr i’r ddinas. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan aelodau’r timau a’u teuluoedd ar y digwyddiad, a barnwyd y gemau yn llwyddiant mawr.

Yn ogystal â phecyn cymorth Cyngor Chwaraeon Cymru, rhoddodd y Cynulliad grant £64,000 at y gemau. Gwnaeth y gefnogaeth honno gyfraniad at lwyddiant y gemau ac yr oedd o gymorth wrth sicrhau y bydd gan ein hymwelwyr atgofion arbennig am Gaerdydd a Chymru.

**Y Cynnig i Ddatganoli Cyngor Celfyddydau Cymru**

**C28 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu’r manteision i ardaloedd gwledig yn sgîl y cynnig i ddatganoli Cyngor Celfyddydau Cymru? (OAQ12693)

**Jenny Randerson:** Y datganoli a gynigir yng nghynllun gweithredu Cyngor Celfyddydau Cymru ar ailstrwythuro yw’r ffordd orau i’r cyngor gyflawni ei flaenoriaethau strategol yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae datganoli yn golygu bod arbenigedd a phresenoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru yn y swyddfeydd rhanbarthol yn cael eu hatgyfnerthu ac y bydd y swyddogion rhanbarthol yn gallu datblygu cysylltiadau cryfion â’r cymunedau diwylliannol lleol.

Yr wyf wedi helpu'r broses hon drwy wneud penodiadau i'r cyngor. Yn ddiweddar fe benodais ddau aelod newydd, y naill o'r Gogledd a'r llall o Bowys.

### Ariannu Opera Genedlaethol Cymru

**C29 Peter Black:** Pa gyfarfodydd a gafwyd ag Opera Genedlaethol Cymru ynghylch y modd y cânt eu hariannu? (OAQ12728) [R]

**Jenny Randerson:** Cyfarfum â chynrychiolwyr Opera Genedlaethol Cymru fis Mai ac eto yn ddiweddar ar 8 Hydref i drafod materion ariannu. Yn y gyllideb ddrafft mae rhagor o ddarpariaeth i Gyngor Celfyddydau Cymru a bydd hynny'n galluogi'r cyngor i sicrhau bod Opera Genedlaethol Cymru yn sefydlog yn ariannol.

### Codi Proffil Rhyngwladol Cymru drwy Rhaglenni UNESCO

**C30 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyfleoedd i godi proffil rhyngwladol Cymru drwy gyfrwng rhaglenni UNESCO? (OAQ12794)

**Jenny Randerson:** Dim ond yn ddiweddar mae'r DU wedi ailymuno ag UNESCO ac felly y mae llawer o waith i'w wneud wrth godi proffil y corff hwnnw a'i amcanion yn y DU. Yr wyf wedi cytuno y caiff y Cynulliad ei gynrychioli yng nghynhadledd gyffredinol UNESCO ym Mharis ddiwedd mis Hydref. Yn sgil y gynhadledd bydd UNESCO y DU yn trefnu cyfarfodydd â'r gweinyddiaethau datganoledig i fanteisio ar fedrau arbenigol a rhaeadru gwybodaeth am ei waith. Byddaf yn sicrhau bod Cymru yn chwarae rhan gyflawn yn hynny, ac yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd sylweddol y mae UNESCO yn ddiau yn gallu eu darparu. Hefyd yr wyf am gyfarfod â chynrychiolwyr UNESCO y DU i drafod beth yw'r ffordd orau o ddatblygu ein cyswllt gwaith a hybu proffil Cymru yn rhyngwladol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Strategaeth Coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol

**C2 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Strategaeth Coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ12769) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifennedig.***

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Cyflwynais 'Coetiroedd i Gymru', strategaeth coed a choetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol yn gynharach y mis hwn. Mae'r strategaeth yn disgrifio gweledigaeth newydd i goetiroedd Cymru. Mae'r weledigaeth yn edrych 50 o flynyddoedd ymlaen i'r dyfodol pan fydd Cymru'n adnabyddus am ei choetiroedd o ansawdd da. Mae'r weledigaeth honno yn ymwneud â choetiroedd sydd mewn cytgord â'r amgylchedd lleol ac yn harddu'r dirwedd. Mae'n weledigaeth sydd hefyd yn ymwneud ag amrywiaeth o goetiroedd, a chanddynt gymysgedd eang o rywogaethau a chynefinoedd.

Datblygwyd y strategaeth yn sgil ymgynghori'n eang â'r cyhoedd a grwpiau a gynrychiolai amrywiaeth eang o ddiddordebau.

*Atebwyd cwestiwn 3 (OAQ12781) yn y Cyfarfod Llawn. Tynnwyd cwestiynau 4 (OAQ12755) a 5 (OAQ12716) yn ôl.*

### Datblygu Pysgodfeydd oddi ar yr Arfordir

**C6 Kirsty Williams:** Pa gamau all y Gweinidog eu cymryd i warchod ac i ddatblygu pysgodfeydd eog, brithyll y môr a brithyll gwyllt oddi ar yr arfordir? (OAQ12690) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Carwyn Jones:** O fewn y cyfrifoldeb sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol am faterion polisi pysgodfeydd eogiaid a dŵr croyw, mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ddyletswydd statudol i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd eogiaid a dŵr croyw yng Nghymru sydd hyd at chwe milltir oddi ar yr arfordir. Wrth gyflawni ei dyletswyddau diogelu'r môr mae'r asiantaeth yn cael ei chynorthwyo gan bwyllgorau y pysgodfeydd môr, a'u swyddogion yn cydweithio i orfodi deddfwriaeth pysgodfeydd.

Mae swyddogion y Cynulliad yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ar lefel y DU sy'n ymdrin â materion rheoli ehangach, megis effeithiau pysgodfeydd cefnforoedd de Iwerddon a Gogledd yr Iwerydd ar stociau eogiaid a brithylliaid, ac effeithiau twymo byd-eang a llygredd yn y môr.

Caf ar ddeall nad yw brithylliaid gwyllt yn byw yn y môr.

*Atebwyd cwestiynau 7 (OAQ12747), 8 (OAQ12741), 11 (OAQ12753), 18 (OAQ12773) a 20 (OAQ12691) yn y Cyfarfod Llawn.*

*Tynnwyd cwestiynau 9 (OAQ12743), 10 (OAQ12699), 12 (OAQ12744), 13 (OAQ12697), 14 (OAQ12768), 15 (OAQ12745) a 16 (OAQ12718) yn ôl.*

## Marchnata Cynnyrch Fferm o Gymru

**C17 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y swm a wariwyd gan y Cynulliad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar farchnata cynnyrch fferm o Gymru yn y DU a thros y môr? (OAQ12796) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Carwyn Jones:** Cyfarwyddiaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol am hybu bwydydd yng Nghymru. Ei swyddogaeth yw arwain datblygu economaidd yn y sector bwyd-amaeth a hybu bwydydd Cymreig. Yn 2000-01 dyrannwyd £3.8 miliwn o gymorth grant y WDA a ddarparwyd gan y Cynulliad i ddatblygiadau bwyd-amaeth, ac anelwyd mwy na £1.8 miliwn at hybu bwydydd. Cafodd y WDA £600,000 ychwanegol o arian Ewrop. Yn ogystal, dyrannwyd £2 miliwn i'r cynllun datblygu marchnata a'r cynllun grant prosesu a marchnata.

*Tynnwyd cwestiynau 19 (OAQ12767), 21 (OAQ12766) a 22 (OAQ12698) yn ôl.*

## Hwyluso Adferiad y Diwydiant Amaeth

**C23 Peter Rogers:** Ym mha ffordd y mae'r Gweinidog yn bwriadu hwyluso adferiad y diwydiant amaeth yng Nghymru yn dilyn argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ12752) [R]

**Carwyn Jones:** Nid oes atebion hawdd wrth symud ymlaen yn sgil clwy'r traed a'r genau. I ddechrau, bydd y diwydiant amaeth a'r cymunedau cefn gwlad ehangach yn chwilio am arweinyddiaeth a chyfeiriad at y dyfodol wrth i ffermio wynebu'r heriau sydd o'i flaen. Bydd adroddiad grŵp Dyfodol Ffermio yn darparu hynny a chaiff yr adroddiad ei gyhoeddi y mis nesaf. Edrychaf ymlaen at gydweithio â phawb sydd ynglwm wrth hyn er mwyn creu gwell dyfodol i'n ffermwyr, yn ogystal â gweithio er budd y cefn gwlad a chwsmeriaid.

## Mesurau i Atal Tranc y Sector Amaethyddol yng Nghymru

**C24 Alun Cairns:** Pa fesurau newydd y mae'n bwriadu eu cyflwyno i atal tranc y sector amaethyddol yng Nghymru? (OAQ12782)

**Carwyn Jones:** Nid oes atebion hawdd i'r problemau dwfn sy'n wynebu ffermwyr a oedd yn bodoli yng Nghymru cyn clwy'r traed a'r genau. Nid yw'r drefn sydd ohoni'n opsiwn.

Y llynedd, sefydlais y grŵp Dyfodol Ffermio er mwyn paratoi strategaeth a rhaglen waith ategol a fyddai'n darparu fframwaith i ddiwydiant amaeth cynaliadwy yn y tymor hwy. Cyhoeddir adroddiad y grŵp y mis nesaf.

### Cynlluniau Gwaredu er Lles Anifeiliaid

**C25 Eleanor Burnham:** A yw'r Gweinidog wedi cyfarfod â swyddogion Ewropeaidd i drafod cynlluniau gwaredu er lles anifeiliaid yng Nghymru ar gyfer yr hydref? (OAQ12786)

**Carwyn Jones:** Nag wyf, gan mai'r bwrdd ymyrraeth (yr asiantaeth taliadau gwledig o 1 Tachwedd) sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun gwaredu er lles anifeiliaid, gan gynnwys yr estyniad i gynnwys ŵyn ysgafn.

### Hectarau sy'n Elwa o'r Cynlluniau Grant Coetir Ffermydd

**C26 Glyn Davies:** Faint o hectarau yng Nghymru sy'n elwa o'r cynlluniau grant coetir ffermydd? (OAQ12774)

**Carwyn Jones:** Rhwng 1988 a 1992 ychwanegwyd 388 hectar o dir at y cynllun coetir ffermydd. Yr oedd y cynllun premiwm coetir ffermydd ar agor i geisiadau ar 1 Ebrill 1992 a, rhwng y dyddiad hwnnw a 31 Mawrth 2001, cafodd 2,771 hectar o dir eu derbyn i'r cynllun.

### Safon y Cig sydd yn cael ei Fewnforio i Gymru

**C27 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda naill ai cynrychiolydd o'r archfarchnadoedd yn y DU, neu â Llywodraeth San Steffan, ynghylch safon y cig sydd yn cael ei fewnforio i Gymru? (OAQ12748)

**Carwyn Jones:** Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelwch bwydydd, a hithau'n cael cyngor gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Nid wyf wedi cyfarfod â'm cydweithwyr yn San Steffan nag â chynrychiolwyr archfarchnadoedd y DU i drafod mewnforio cig. Er hynny, rhaid i bob cynnyrch cig, boed yn dod o du allan neu o du mewn i'r Undeb Ewropeaidd, gael ei gynhyrchu yn unol â rheolau'r UE ar hylendid a BSE. Adrannau amaeth sy'n gyfrifol am reoli mewnforio cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi arwain gweithgor ar draws adrannau'r Llywodraeth a sefydlwyd i arolygu'r broses orfodi, ac mae gan yr asiantaeth gynrychiolaeth ar y gweithgor hwnnw. Mae sawl mesur wedi'I gyflwyno o ganlyniad â gwaith y grŵp.

*Tynnwyd cwestiwn 28 (OAQ12770) yn ôl.*

### Cynllun LEADER+

**C29 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynllun LEADER+? (OAQ12754)

**Carwyn Jones:** Menter gymunedol yr Undeb Ewropeaidd er datblygu gwledig yw LEADER+. Cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd ddogfen raglennu sengl LEADER+ Cymru ar 2 Gorffennaf ac ar 10 Gorffennaf, cyhoeddais y saith grŵp gweithredu lleol llwyddiannus. Cymeradwyodd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Amcan 1 ddogfen ategol y rhaglen ar 2 Hydref ac mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio gyda'r grwpiau llwyddiannus i lunio eu cynlluniau busnes. Bu'n rhaid cyflwyno'r cynlluniau busnes I Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru erbyn 15 Hydref. Pennir y dyraniadau ariannol wrth gymeradwyo'r cynlluniau busnes.

Dyma'r grwpiau a fu'n llwyddiannus:

- Cadwyn Clwyd (cefn gwlad Sir Ddinbych a Sir y Fflint)
- Menter Môn (cefn gwlad Môn)
- Glasu (cefn gwlad Powys)
- SPARC/PLANED (cefn gwlad Sir Benfro)
- Rural Conwy
- Northern Marches (cefn gwlad Wrecsam)
- Adventa (cefn gwlad Sir Fynwy)

*Tynnwyd cwestiwn 30 (OAQ12742) yn ôl.*

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Cynulliad Cenedlaethol

**C1 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y mae strategaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei darparu yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Penfro? (OAQ12712) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Darperir Cymru Ar-lein yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Penfro, fel ym mhob man arall, drwy amryw gyfrwng. Mae'r rheini'n cynnwys darparu cymorth a chyngor ar TGCh yn rhad ac am ddim i fusnesau lleol drwy ganolfan Cyswllt Busnes Penfro, a mynediad rhad i'r we drwy ganolfannau cyswllt dysgu/learn direct y Brifysgol i Ddiwydiant. Hefyd yn ddiweddar fe wnaeth y Cynulliad gymeradwyo cais Sir Benfro i greu canolfannau dysgu TGCh ym mhob un o'i hwyth ysgol uwchradd ac mewn amryw ganolfan gymunedol, fel rhan o'i strategaeth i ddefnyddio TGCh i ddysgu. Yr ydym wrthi'n ystyried cynigion am brosiectau cymunedol eraill i sicrhau bod TGCh yn fwy hygyrch mewn ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

*Tynnwyd cwestiynau 2 (OAQ12723), 3 (OAQ12795) a 6 (OAQ12709) yn ôl.*

*Atebwyd cwestiynau 4 (OAQ12707), 5 (OAQ12710) a 7 (OAQ12778) yn y Cyfarfod Llawn.*

### Sicrhau Mwy o Fynediad i'r Rhyngrwyd

**C8 Christine Gwyther:** Pa fesurau sy'n bod i sicrhau bod mwy o'r cyhoedd yn cael defnyddio'r rhyngrwyd? (OAQ12714) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Andrew Davies:** Ein nod yw sicrhau ei bod yn haws i bobl ddefnyddio seilwaith rhwydwaith band llydan, gan wneud gwahaniaeth penodol mewn ardaloedd gwledig. Fel cam cyntaf cynllun band llydan Cymru y Cynulliad , cytunwyd pecyn £18.5 miliwn i fand llydan ar gyfer dysgu gydol oes eleni, a £6 miliwn bob blwyddyn wedi hynny. Bydd hynny'n darparu'r band llydan ym mhob awdurdod lleol a gwell offer aml-gyfrwng mewn ysgolion.

Darperir mynediad i'r rhwngrwyd yn gyfleus a hygyrch i bawb drwy'r llyfrgelloedd cyhoeddus, canolfannau cyswllt dysgu/learn direct a chanolfannau dysgu TGCh ategol mewn ysgolion a chanolfannau cymunedol. Erbyn Ionawr 2002, byddwn yn darparu rhestr o 400 o ganolfannau dysgu ledled Cymru a fydd yn darparu adnoddau TGCh dwyieithog i'r cyhoedd.

Yr ydym yn sefydlu rhaglen e-gymunedau allweddol i ddatblygu medrau a dealltwriaeth am TGCh a fydd yn arwain at fwy o alw, a bydd hynny'n arwain yn ei dro at fwy o fynediad drwy'r sector preifat.

Hefyd, drwy weithgareddau'r Cynulliad a'i ddulliau o weithio, byddwn yn hybu adnoddau a gwefannau Cymraeg ar y rhyngrwyd, i osgoi codi ffin ddigidol ieithyddol.

*Atebwyd cwestiynau 9 (OAQ12736), 10 (OAQ12737) a 13 (OAQ12706) yn y Cyfarfod Llawn.*

*Tynnwyd cwestiynau 11 (OAQ12756) a 12 (OAQ12757) yn ôl.*

**Hyrwyddo Cymru Dramor (Polisi TGCh)**

**C14 Nick Bourne:** Sut mae'r polisi ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo Cymru dramor? (OAQ12708)

**Andrew Davies:** Un o brif flaenoriaethau'r Cabinet yw hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol. Cyflwynwyd pecyn o adnoddau hybu a marchnata am Gymru Ddydd Gŵyl Dewi eleni. Mae'r adnoddau'n cynnwys CD-ROM rhyngweithiol a gwefan 'Wales. World Nation' , ac mae'r pecyn hwnnw'n cael ei ddatblygu ymhellach.

Yr ydym hefyd am ddatblygu gwasanaeth porth Cymru a fydd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflwyno gwasanaethau a gwybodaeth ledled y byd.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrthi eisoes yn datblygu prif agweddau hynny drwy 'Cymru ar y We', a fydd yn fynedfa gyntaf i bob lefel o ymholiadau am bynciau Cymreig, a'r prosiect Casglu'r Tlysau. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i weithio gyda'r Llyfrgell Genedlaethol a phrif bartneriaid eraill i ganfod a datblygu gwasanaeth sy'n addas at ein prif nod.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ12722) yn ôl.*

**Twf Gwasanaethau Band Llydan yng Nghymru**

**C16 Alun Cairns:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hwyluso twf gwasanaethau band llydan yng Nghymru? (OAQ12777)

**Andrew Davies:** Mae'r Cynulliad wedi ceisio sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau band llydan a'r galw amdanynt yn cynyddu. Mae'n cefnogaeth i brosiectau megis Llwybr/Pathway, Strand 6 a'r rhwydwaith aml-asiantaeth i ardaloedd gwledig (MARAN) wedi gwella darpariaeth gwasanaethau band llydan. O ran y galw am wasanaethau band llydan, mae gan brosiectau megis CyflE Cymru a rhwydwaith y canolfannau cefnogaeth TGCh ran bwysig i'w chwarae wrth godi ymwybyddiaeth am fanteision sylweddol technolegau band llydan ymhlith mentrau bach a chanolig eu maint.

Yn ogystal, gwnaeth yr astudiaeth am seilwaith band llydan a gyhoeddwyd fis Gorffennaf sawl argymhelliad er mwyn manteisio i'r eithaf ar gronfeydd strwythurol ac eraill i wella mynediad i dechnolegau band llydan. Disgwylir i gynllun gweithredu manwl gael ei gyflwyno i Gabinet y Cynulliad cyn hir.

**Nifer y Cyfrifiaduron yn Llyfrgelloedd Cymru**

**C17 Nick Bourne:** Faint o lwyddiant a gafwyd i gynyddu nifer y cyfrifiaduron y gellir cysylltu â nhw yn llyfrgelloedd Cymru? (OAQ12711)

**Andrew Davies:** Yr ydym wedi darparu £6.5 miliwn, drwy'r gronfa cyfleoedd newydd, i rwydwaith TGCh y bobl mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r gronfa wedi cael cynlluniau rhwydweithiau cyfrifiaduron gan bob un o'r 22 awdurdod lleol. Dylai pob llyfrgell gyhoeddus, lle bo modd, fod ar y we erbyn diwedd 2002, a bydd nifer y cyfrifiaduron yn llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn cynyddu o 200 i ryw 2,000. Hefyd, mae £870,000 wedi'i ddyrannu at hyfforddi staff llyfrgelloedd cyhoeddus yn TGCh ac fe wnaeth y gronfa gymeradwyo pob un o'r 22 cynllun hyfforddi TGCh. Bydd y pecyn band llydan er dysgu gydol oes, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn adeiladu ar y fenter hon drwy sefydlu cysylltiadau

rhwng yr awdurdodau lleol a'r llyfrgelloedd cyhoeddus a darparu mynediad cyflymach â lled y band yn 8 megabit yr eiliad.

### Datblygu Cysylltiadau TGCh ag Ewrop

**C18 John Griffiths:** Beth fydd y strategaeth ar gyfer datblygu cysylltiadau TGCh ag Ewrop a rhanbarthau Ewrop? (OAQ12798)

**Andrew Davies:** Mae cydweithio rhwng rhanbarthau Ewrop yn elfen hollbwysig gydag arian Ewropeaidd, ac yr ydym yn annog sefydliadau yng Nghymru i weithio gyda phartneriaid ar brosiectau ymarferol. Bydd y gwaith yn y maes hwn yn cynnwys rhoi mwy o wybodaeth am bartneriaid dichonol drwy ddarparu trafodfa am arian Ewropeaidd ar wefan Cymru Ar-lein. Gan fy mod i'n arlywyddu'r pwyllgor teleranbarthau mae gan Gymru gyfle ymhellach i lunio cysylltiadau agosach at ranbarthau eraill Ewrop a rhwydweithiau rhanbarthau eraill. Mae'r rhwydwaith teleranbarthau yn darparu cyfle i rannu profiadau gyda rhanbarthau eraill ac i ddweud ein dweud ar lefel Ewropeaidd.

*Tynnwyd cwestiwn 19 (OAQ12715) yn ôl.*

### Mynediad i'r Rhyngrwyd (Manteision Hirdymor i Gymru)

**C20 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y manteision hirdymor i Gymru o gynyddu nifer yr aelwydydd yng Nghymru sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd? (OAQ12735)

**Andrew Davies:** Bydd yr unigolion a'r teuluoedd sydd â mynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi yn gallu elwa ar amrywiaeth o gyfleoedd dysgu, gwybodaeth a gwasanaethau ar-lein a ddarperir gan fusnesau a'r sector cyhoeddus. Byddant yn gallu ymgymryd â theleweithio neu newid eu patrymau gwaith i fod yn fwy hyblyg, a fydd yn gwella bywyd teuluol ac arwain at fanteision hirdymor i'r gymuned a'r amgylchedd. Bydd mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref hefyd yn darparu cyfleoedd i bobl ddatblygu eu medrau TGCh, gan eu galluogi i ddatblygu busnesau a chymunedau Cymru drwy ddefnyddio'r dechnoleg. Os bydd digon o bobl Cymru yn dewis, ac yn gallu, cysylltu â'r we, fe ddatblygir e-farchnad fewnol o fedrau a chwsmeriaid, a fydd yn galluogi busnesau Cymru i dyfu a datblygu eu e-fasnachu. Yn ei dro fe fydd hynny'n galluogi'r busnesau hynny i fanteisio ar farchnadoedd byd eang, lle bo e-fasnachu'n angenrheidiol. Y prif fantais yn yr hirdymor o gael mwy o gartrefi'n cysylltu â'r we yw'r cyfraniad at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

*Tynnwyd cwestiwn 21 (OAQ12713) yn ôl.*